# Ydw i wedi canfod mwsogl?

Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU

Edrychwch yn ofalus ar gerrig, coed, pafin a waliau, ac efallai y gwelwch chi fwsogl – planhigion bach gwyrdd sy'n ffynnu mewn llefydd garw. Mae llysiau'r afu a chennau yn debyg ac yn aml i'w gweld gyda'i gilydd. Bydd llygad barcud neu lens llaw yn help i weld y gwahanol nodweddion.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

015



## Mwsogl
*Homalothecium sericeum*

Mae gan fwsogl goesynnau gyda dail pigfain bach a chapsiwlau ar goesynnau uwchlaw'r dail. Mae'r capsiwlau'n frown ac eithaf gwydn, ac yn glynu at y planhigion am rai wythnosau. Caiff y sborau y tu mewn eu rhyddhau'n araf er mwyn egino a thyfu'n blanhigion mwsogl newydd. Mae tua 750 o rywogaethau mwsogl yn y DU. Maen nhw'n ffurfio matiau a chlustogau ar gerrig a rhisgl a charpedi ar y ddaear, le mae'r amodau'n ffafriol.



## Llysiau'r afu deiliog
*Lophocolea bidentata*

Tebyg i fwsogl ond gyda chapsiwlau fel coesau matsis gyda phennau du. Maen nhw'n aros ar y planhigion am rai dyddiau ac yn rhyddhau'r holl sborau ar unwaith. Mae'r planhigion yn fwy bregus ac i'w gweld mewn llefydd gwlypach na mwsogl. Mae dail llysiau'r afu mewn rhesi ac yn aml yn ymrannu ar y blaen. Mae dail mwsogl fel arfer yn droellog. Mae tua 300 o rywogaethau llysiau'r afu yn y DU.



## Llysiau'r afu thaloid
*Marchantia polymorpha*

Nid oes dail gan lysiau'r afu thaloid. Maen nhw'n solet a gwastad ac yn lledaenu ar draws y ddaear. Cânt eu canfod fel arfer ar bridd neu risgl coeden a gallant fod yn gyffredin mewn potiau tŷ gwydr. Capsiwlau tebyg i lysiau'r afu deiliog, ond weithiau ynghudd mewn cynheilydd fel ymbarél ar arwyneb y planhigyn. Mae rhai llysiau'r afu thaloid yn eithaf tenau a thyner tra bod eraill yn fawr ac yn gadarn.



## Cyrnddail
*Phaeoceros carolinianus*

Mae cyrnddail yn debyg i lysiau'r afu ac nid oes dail ganddynt. Pigau neu gyrn yw capsiwlau'r cornddail, sy'n tyfu o arwyneb y planhigion. Caiff y sborau eu rhyddhau o flaenau'r cyrn dros amser hir. Mae pedwar o rywogaethau cyrnddail yn y DU ac maen nhw'n aml yn cael eu hanwybyddu pan nad oes ganddynt gapsiwlau gan nad yw'r planhigyn thaloid yn amlwg.



## Cen
*Parmotrema perlatum*

Yn wahanol i lysiau'r afu a mwsogl, nid planhigion yw cennau ond ffwng ac algae symbiotig sy'n cydfyw. Maen nhw'n aml yn llwydaidd ond gallant fod yn felyn neu'n oren llachar. Maen nhw hefyd yn ffurfio clytiau ar arwynebau caled fel coed, cerrig, waliau a phafin. Yn wahanol i fwsogl, llysiau'r afu a chyrnddail, nid oes capsiwlau ganddynt, ac maen nhw'n aml fel papur pan yn sych. Mae tua 1800 o rywogaethau cen yn y DU.